

**Gwrandawriad - Sesiwn 4**

**TAI Fforddiadwy, Llety ar Gyfer Sipsiwn a**  
**Theithwyr a Darpariaeth Tai Arbenigol**

**Agenda Materion a Phynciau**  
**DIWYGIEDIG:07.03.17**

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Materion Gweithdrefnol**

***Tai Fforddiadwy***

- 3. A yw lefel yr angen am dai fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?**
  - a) A yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (LHMA) yn ddigon cadarn i lywio strategaeth dai y Cynllun?
  - b) Beth yw'r raddfa o angen am dai a ddynodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol?
  - c) Pa gymysgedd o ddaliadaeth (e.e. tai rhent canolradd neu gymdeithasol) a math o aneddeuoedd (maint ystafelloedd gwely) sydd eu hangen?
  - d) A fydd y targed o 949 o dai fforddiadwy yn diwallu'r angen lleol am dai? Os na, pa ddulliau eraill sydd ar gael?
- 4. A yw'r cyfraniadau tai fforddiadwy a geisir yn seiliedig ar asesiad credadwy o hyfywedd?**
  - a) A yw'r cyfraniadau o dai fforddiadwy a geisir gan Bolisi H4 yn seiliedig ar dystiolaeth hyfyw gadarn?
  - b) Sut mae'r lefelau o gyfraniadau wedi ystyried costau adeiladu cynyddol, rhwymedigaethau cynllunio a gofynion cysylltiedig eraill?
  - c) A yw lefelau'r cyfraniadau ar gyfer Canol Powys a De Orllewin Powys yn briodol?
  - d) A yw trothwy'r safle arfaethedig o 5 neu ragor o aneddeuoedd neu safleoedd dros 0.25 hectar wedi'i gefnogi gan dystiolaeth hyfyw gadarn? A sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol?
  - e) A yw Polisi H4 yn ddigon clir, yn enwedig o ystyried gofynion amrywiol ar gyfer ardaloedd daearyddol?

- f) A yw Polisi H4 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer cyfraniadau tai fforddiadwy? Neu a ddylai gofynion Meini Prawf 2 (rhan), 3, 4 a 5 gael eu cynnwys yn y cyfiawnhad rhesymedig?

**5. A fydd y Cynllun yn cyflawni'r gofyn am dai fforddiadwy?**

- a) A yw'r targed o 949 o dai fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
- b) Sut y bydd y targed ar gyfer tai fforddiadwy'n cael ei gyflawni?
- c) Sut y bydd cyfraniadau oddi ar y safle'n cael eu diogelu? A pha fecanweithiau sydd yn eu lle i sicrhau bod lefel y cyfraniadau a geisir yn briodol?
- d) A fydd polisiau tai fforddiadwy'r Cynllun yn sicrhau cydbwysedd yn yr amrywiaeth o dai, daliadaeth a maint?
- e) A yw Polisiau H5 a H7 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer sicrhau tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig ac mewn ardaloedd gwledig? Ac a fyddai cyfuno'r polisiau'n gwella eglurder y Cynllun?
- f) A yw cynnwys Polisi H8 yn briodol?

**6. A yw dosbarthiad gofodol y tai fforddiadwy yn gadarn ac a yw'n adlewyrchu anghenion lleol yn ddigonol?**

***Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr***

**7. A yw'r Cynllun yn seiliedig ar asesiad cadarn o anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?**

- a) A yw'r Asesiad Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ddigon cadarn i lywio strategaeth y Cynllun?
- b) Mae'r Asesiad Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn dynodi'r angen ar gyfer lleiniau parhaol a dros dro newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, dros gyfnod y Cynllun?
- c) A yw'r angen hwn yn gymesur â'r gofynion a ddynodwyd ym Mholisi H13?

**8. Sut fydd y Cynllun yn cyflawni'r angen sydd wedi'i ddynodi am safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?**

- a) A fydd yr angen a ddynodwyd yn cael ei ddiwallu'n rhannol gan y datblygiad o'r safle ar Heol Newton, Machynlleth? A yw'r dyraniad o'r safle wedi'i gefnogi gan asesiad cadarn a chynhwysfawr sy'n rhydd o gyfyngiadau datblygu arwyddocaol o fewn cyfnod y Cynllun?
- b) Sut y bydd yr angen sydd wedi'i ddynodi yn cael ei ddiwallu yn y Trallwng?
- c) A oes nawdd wedi cael ei glustnodi ar gyfer darparu'r safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Machynlleth a'r Trallwng? Beth yw'r amserlenni ar gyfer darparu'r safleoedd hyn?

- d) A yw Polisi H13 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr?

***Darpariaeth Tai Arbenigol***

- 9. A yw'r Cynllun yn cynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion tai arbenigol?**
- 10. Unrhyw faterion eraill**

NKG 02/17